YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XL. GORFFENNAF, 1940 RHIF 7.

Nodion

O Lyfr y GOLYGYDD.

CWRS Y RHYFEL:

WEDI gwaeddi yn hir "ar ei lidiart" y mae Mwsolini a'i luoedd o'r diwedd yn ymyl Hitler yn yr ymdrech i ladd rhyddid a dinistrio democratiaeth. Pa cyd y bydd Franco cyn cymryd ei le'n y triawd?

Dechreuir erbyn hyn amgyffred termau'r cadoediad a wnaeth Ffrainc â'r gelyn. Y mae'n anodd meddwl fod ysbryd gorau Ffrainc yn derbyn y termau hyn sy'n rhoi holl adnoddau milwrol y wlad at wasanaeth y gelyn. Cofiwn am angerdd ei gwerin bobl tros rhyddid, a gwyddom hefyd am bydredd ei llywodraeth. Y mae Ffrainc yn enghraifft deg o'r "tŷ wedi ymrannu'n erbyn ei hun"—y llywodraethwyr yn gwrthryfela'n erbyn y fyddin, a'i chyfoethogion yn meddwl mwy am eu cyfoeth na hawliau'u cyd-ddynion. Nid dyma'r lle i gyhoeddi cwerylon politicaidd y wlad honno, ond gallwn gymryd y wers a'r rhybudd.

Rhyfel rhwng *cenhedloedd* ydyw'r rhyfel presennol. Felly yr ymddengys yn awr. Ond y mae'n datblygu'n gyflym yn rhyfel rhwng *safbwyntiau'r* Dde a'r Chwith *ymhlith* y cenhedloedd. Dyna ddigwyddodd yn Ffrainc. Trowyd llwydd Hitler yn gyfle i gynffonwyr y Ffasgiad Marshal Petain ddiorseddu llywodraeth M. Reynaud. Sefydlwyd llywodraeth Bordeaux, ac y mae cyd-ymdeimlad Hitleraidd aelodau'r llywodraeth honno'n hysbys ers amser maith.

Rhyw dair wythnos yn ôl ysgrifennai'r Parch. J. M. Lloyd Thomas, Llanarth, eiriau cadarn mewn adolygiad ar lyfr—*The Deeper Causes of the War*. Dwedai fod ffiniau cenedlaethol yn llai pwysig na rhaniadau meddyliol y cenhedloedd. Y mae'r hen batrymau o wledydd ar eu pennau eu hunain wedi mynd yn fregus

iawn. Y mae Pabydd da, meddai, yn ei deimlo'i hunan yn un â'i gyd-Babyddion ymhob gwlad. Y mae rhywbeth tebyg i hyn yn wir am *International Labour*, *International Finance*, *International Big Business*, a Chomiwnistiaeth Moscow. Ni chydnabyddant ffiniau'r gwledydd. Ni all militariaeth nag Ogpu na Gestapo rwystro llif meddyliau, da neu wael, mwy nag y gellir caethiwo heulwen neu niwl. Y mae cydymdeimlad meddyliol yn gryfach na loialti cenedlaethol. Dwedai Mr. Thomas fod ei gydymdeimlad ysbrydol â bydolddyn o Gymro'n llai na'i gydymdeimlad â'r *Confessional Evangelical German* neu'r Pabydd Ellmyn sy'n dihoeni mewn *concentration camp*. Teimlai fwy dros ddilynwr i Fohamed sy'n barod i farw dros ei grefydd nag y teimlai dros inffidel o Brydain sy'n barod i farw dros ddim—ond yn barod i ddanfon miliynau i farw dros ei fwngloddiau nicel a'i ffynhonnau olew. Eu dewisiadau o werthoedd bywyd—y rhain sy'n dosbarthu'r bobloedd.

CYNNIG EIN PRIFWEINIDOG:

Cyn i Ffrainc fwrw arfau llefarodd Mr. Winston Churchill eiriau pell-gyraeddol pan gynigiodd Weithred o Undeb rhwng Prydain a Ffrainc, y Weithred yn gwneud ohonynt un genedl gyda'r un polisi a'r un trysorfa. Pan gofiwn am y gwahaniaeth anian rhwng Sais a Ffrancwr, y mae'r peth yn fwy rhyfeddol, ac yn ernes o ddyfodol pryd y bydd gwelydd cenedlaetholdeb gul yn cwympo i lawr. Pan gydnabyddir y peth hwn fel gwleidyddiaeth ymarferol—a gwnaeth ein llywodraeth hynny—yna y mae'r gobaith am frawdoliaeth byd-eang yn fwy o lawer nag erioed. Yr oedd araith Mr. Churchill yn dwyn i gof frawddeg o lythyr Dr. Priestley pan etholwyd ef yn aelod o'r *Convention*. Cyhoeddwyd y llythyr yn *Le Moniteur Universel* (Medi 30, 1792)—"I gratefully accept the gift of election. I shall unite my service with that of a citizen of England, because it is my hope that these two countries will be for ever united by the bonds of brotherhood."

CALONDID:

Calonogol ydoedd darllen cyfeiriadau Euroswydd yn *Y Faner* at rifyn Mehefin o'r YMOFYNNYDD a'i ddetholion o araith y Prifathro W. S. Jones ar Ryddid. Y sawl sy'n adnabod yr Undodwr, gŵyr fod rhyddid barn, crefyddol a pholiticaidd, yn agosach at ei galon na'i ddiwinyddiaeth. Yn wir, tyfu'n Undodwr a wnaeth o ganlyniad i'w strygl dros ryddid barn.

Y RHIFYN NESAF:

Cyhoeddir yn rhifyn Awst grynhodeb o araith y Llywydd a phregeth y Gymdeithas a draddodwyd yn y Cyrddau Blynyddol ym Mwlchyfadfa.

Iddew a Christion mewn dadl.

MAGWYD y Cristion fel Groegwr yn henwlad yr Iddew, ac ni wyddai air o Hebraeg. Yr oedd hefyd er yn ifanc o duedd grefyddol ac yn chwilio trwy help gwahanol ysgolion athronyddol am olau ar ddyrysbwnc ei enaid, sef y gwir am y Bôd o Dduw. Ar ddamwain cwrddodd â henwr o Gristion a fu'n foddion i foddloni ei feddwl ynglŷn â'i bryder ysbrydol ac ymunodd â'r frawdoliaeth Gristnogol mewn canlyniad.

Wedi rhai blynyddoedd o astudio caled ar ei Feibl Groeg nes medru ohono ddyfynnu o'i gôf bopeth a geid ynddo ag awgrym o gefnogaeth i'r gred Gristnogol, digwyddodd i gwmni godi ymgom ag ef wrth rodianna ar brynhawn braf ym maesdref rhyw ddinas yn Asia Leiaf. Yr oedd hynny yn fuan wedi'r dinistr ofnadwy i'r gwrthryfelwyr Iddewig gan Ymerawdr Hadrian, a ffoedigion o Balesteina oedd y cwmni hwnnw. Wedi deall safle ei gilydd, sef mai Iddewon oedd y cwmni a Christion y gŵr mewn llaeswisg athronydd, dechreuwyd beirniadu syniadau ei gilydd, a chytunwyd gan y Cristion a phump o'r cwmni Iddewig ymneilltuo i gysgod adeilad colofnog i geisio tanseilio syniadau ei gilydd. Cofnodwyd y ddadl gan y Cristion, a diamau fod ei adroddiad yn llawer helaethach na'r ymddiddan, neu iddynt ddadlau ddeuddydd maith* ; ond gellir dibynnu ar ei degwch i'r cwmni Iddewig wrth gofnodi eu sylwadau. Rhaid dweud amdano ef ei fod yn awyddus i fod yn gywir i'r gwir, yn hynod eangfryd ei deimlad ac mewn rhai pethau yn swnio'n dra modern, ac am y cwmni ei fod yntau yn dra bonheddig wrth anghytuno.

AWDURDOD YSGRYTHUR:

Safai'r Cristion a'r cwmni Iddewig ar yr un tir yn hollol ynglŷn â safon derfynol i benderfynu barn ar faterion crefyddol, sef Beibl y Synagog. Derbynient ill dau ei gynnwys fel y mae gyda ni, canys erbyn dechrau'r ail ganrif yr un oedd llyfrau canonaidd yr Hen Destament i'r Synagog ac i'r Eglwys. Fel ei gilydd yr oedd pob gair o'r Hen Destament yn anffaeledig iddynt ac ni allai'r Beibl wrthddweud ei hunan mewn canlyniad. Pan ymddangosai weithiau yn gwrthddweud, methiant y darllenydd i'w ddeall a barai fod problem felly'n codi. Ar y tir hwn ceisiai'r naill gael y gred Gristnogol yn ei chrynswth fel y coleddid hi yn niwedd y ganrif gyntaf mewn rhagfynegiad ac alegori yn yr Hen Destament, a cheisiai'r llall ei dymchwel. Y mae'n dilyn mai ar ddehongliad o eiriau, hanesion ac ymadroddion yn yr Hen Destament y methid â chydweld.

---

*Y mae'r ddadl hon mewn Saesneg da yn "*Library of the Fathers*" Parker, Oxford.

Y GYFRAITH:

Y cwestiwn cyntaf a godai i feddwl yr Iddew ynglŷn â'r Cristion oedd, paham na fuasai ef yn cadw gorchmynion pendant Deddf Moses, sef enwaediad, cadw Saboth a'r gwyliau crefyddol, gan ei fod yn derbyn yr Hen Destament yn awdurdod derfynol? Ni ellid gobeithio osgoi cospedigaeth am anwybyddu y rhain, yn ôl barn Iddew. Y mae ateb y Cristion ar y pen hwn yn rhaggysgodi Luther. Ni wyddai Abel, Enoc a Noah, ebai, ddim amdanynt, ac eto ni feiddiai Iddew hyd yn oed ag awgrymu eu bod hwy yn golledig. Pethau ychwanegol i ddisgyblu cenedl llai perffaith na'r duwiolion cyntaf oedd yr ordeiniadau Moesenaidd. Y mae derbyn y gwir o'i ganfod ac ymostwng mewn ufudd-dod i'r weledigaeth a ddaw drwyddo yn gwneud i ffwrdd a gwerth y pethau allanol; ond gellid eu cadw 'mlaen fel pethau ychwanegol os yw hynny yn gysur i deimlad unrhyw Gristion. O'i ran ei hunan yr oedd y Cristion hwn yn fodlon bod yn aelod o'r un eglwys ag Iddew a fyddai'n cadw gofynion ei synagog ond iddo dderbyn Iesu'r Eglwys fel y Meseia addawedig.

Y GENI GWYRTHIOL:

A mwy na hynny, nid oedd am orfodi Iddew i gredu fel corff y Cristnogion, os oedd rhwystr anorfod i'w feddwl i gredu, yn yr enedigaeth wyrthiol. Bodlonai i Iddew ystyried Iesu fel arall o blant dynion a'i ddewis i'r flaenoriaeth mewn pethau ysbrydol ar y tir ei fod yn cydnabod mai Iesu yw'r Meseia. Asgwrn y ddadl oedd ai Iesu a orffennodd ei yrfa ar grôg fel gŵr a gondemniwyd gan Eglwys a gwladwriaeth oedd y Meseia ai nage? I'r Iddew yr oedd Iesu ar grôg fel Meseia mor wrthun â'r honiad i Dduw ddod yn ddyn, ac i brofi fod y ddau beth hyn wedi eu rhagfynegi ym Meibl yr Iddew canola'r Cristion ei nerth, ei gof mawr, ei wybodaeth a'i dalent ymresymu. Yr oedd prif ddadleuydd y cwmni Iddewig yn Hebrewr ac ni chytunai â'r Cristion pan adeiladai hwnnw ar ystyr i air Groeg na chefnogid gan yr Hebraeg. Er enghraifft, "morwyn" neu "wyryf" yw ystyr naturiol y gair yn y cyfieithiad Groeg o Esaia 7 : 14, ond "gwraig ifanc" yw ystyr gyntaf y gair yn yr Hebraeg, a daliai'r Iddew fod y Cristnogion yn adeiladu cred yn y geni gwyrthiol ar sail camesbonio yr adnod honno, yn wir yr holl baragraff lle y digwydd yr adnod. Ateb y Cristion i'r feirniadaeth hon oedd fod yr Iddewon yn ymffrostio yn anffaeledigrwydd y cyfieithwyr o'r Beibl Hebraeg i'r Groeg, ac ni fedrai'r Iddew wadu hynny. Eto gwell oedd ganddo fod yn anghyson na rhoi i mewn i'r athrawiaeth o eni Duw o fenyw.

SWYDD ANGEL YR ARGLWYDD:

Parthed y Bôd o Dduw safai'r ddau ar yr un tir. Yr oedd y Duw Goruchaf iddynt tuhwnt i'w gydio â'r syniad o ddyn. Cyt-

unent hefyd y medr dyn ddod o dan gynhyrfiad Ysbryd Duw a elwid yn ysbryd proffwydol, a bod graddau o fodau urddasol rhwng Duw a dyn a elwid yn angylion, a bod eu tebyg yn perthyn i deyrnas y tywyllwch o dan bennaeth a gynrychiolid gan y sarff.

Sonir yn yr Hen Destament am yr Arglwydd yn siarad ag Abraham ac yn bwyta ar ei fwrdd, a rhyw berson urddasol yn annerch Iacob wrth yr enw Duw Abraham, a hefyd yn cyfarch Moses o'r tân o dan yr un teitl, a cheir sôn am angel yn gapten y llu yn Ioshua a'r cyffelyb. Dadl y Cristion oedd mai nid y Duw Goruchaf oedd yr Arglwydd hwn, ond ei gynrychiolydd a elwir yn Ddoethineb yn y Diarhebion. Yr oedd yr Iddew yn ddigon parod i ganiatau fod yna angel urddasol a wnai y gwaith o gyflwyno meddwl y Goruchaf i ddynion, ond ni allai gydweld mai'r angel hwn oedd i'w eni yn Feseia. Lluosog yw'r pwyntiau a achosai'r anghydweld, ond pe dysgasai'r ddau ddadleuydd gofio mai iaith a ffigyrau dynol a ddefnyddir i ddisgrifio'r byd uwchddynol yn y Beibl, arbedasid llawer o ddadlau difudd iddynt.

DYLANWAD GROEG:

Yr oedd y Cristion, fel disgybl i gyfundrefn feddyliol Plato ac athrawiaeth y Stoiciaid, yn dal fod elfen ddwyfol mewn dyn. Os o'r pridd y gwnaed ei gorff, o Dduw y daeth ei enaid. Parai hyn iddo ddefnyddio'r syniad Stoicaidd fod gwreichionen o'r meddwl dwyfol ym meddiant dyn a'i galluogai i ddeall meddwl Duw, a rhwydd cymryd y cam fod y meddwl meidrol o'r un natur â'r meddwl anfeidrol. Ni theimlai ef ei bod yn anodd amgyffred y medr meddwl anfeidrol gymryd menthyg personoliaeth ddynol i sylweddoli dibenion dwyfol ar lefel y bywyd dynol. Yr oedd ei gefndir athronyddol yn peri i'r Cristion ystwytho llawer ar ymadroddion Beibl yr Iddew i gytuno â'i ddaliadau ef, ond cadwai ffyddlondeb i ystyr naturiol geiriau yr Iddew rhag cytuno fod eu hystyr gudd yn bwysicach na'u hystyr amlwg.

Dengys y ddadl hon rhwng y Cristion a'r Iddew yn yr ail ganrif y modd y ceisid profi gwirionedd Cristnogaeth gan y naill trwy hawlio Beibl y Synagog fel Beibl yr Eglwys a'r modd y methai'r llall â gweld tegwch yr honiad, a gwelir fel y daeth athroniaeth y meddwl i ddylanwadu ar ddehongliad y Cristnogion o berson y Meseia, wedi i'w cenadwri ymgartrefu ym myd a iaith y Groegwr.

YCHWANEGIADAU:

Yr oedd yn y Beibl a ddefnyddiai'r Cristnogion nifer o ymadroddion ffafriol i'w daliadau na cheid mohonynt ym Meibl y Synagog. A phan gyhuddid yr Iddewon gan y Cristion o'u dileu o'u Beibl am eu bod yn ffafr Cristnogaeth, synid yr Iddew. Yr oedd yn anghredadwy iddo ef y gwnai neb o'r Synagog beth felly.

Erbyn hyn gellir troi'r fantol yn erbyn y Cristion yn y peth hwn, canys ychwanegiad gwreiddiol yn ddiamau oedd yr ymadroddion tan sylw. Ymddengys y Cristion ar ei orau pan ddefnyddiai ei dipyn athroniaeth i egluro'i gred, ac ar ei wannaf pan roddai seibiant i'w reswm a ffrwyn ar war ei ddychymyg a dilyn y breuddwydwyr a fu yn y Synagog ac yn yr Eglwys, a disgrifio'r dyfodol ar linellau apocalyptig. Methwyd â symud yr Iddew am fod esboniad y Cristion o'r Ysgrythur yn aml yn annaturiol a gwyrgam, ebai. Eto cydymdeimlir â'r gred fod yr Hen Destament yn sôn am y Meseia mewn termau urddasol. Nid yw dull y Cristion o ddefnyddio'r Hen Destament yn apelio mwyach, ac ychydig o'i syniadau diwinyddol sy'n cael sylw ond ymhlith y ffwndamentaliaid.

Arholiad yr Ysgol Sul, 1940.

Arholwyr— Mr. J. M. James, C.M., Cellan.
Mr. W. D. Jones, B.A., Llanwnnen.

Adroddiad yr Arholwyr.

Cafwyd atebion rhagorol gan y mwyafrif o'r ymgeiswyr, er i rai ohonynt syrthio gyda'r " Gwynfydau ". Tipyn yn gyfyng oedd y maes eleni eto. Diolchwn yn gynnes i'r Arolygwyr lleol ac yn arbennig i'r Parch. J. D. Jones, Trebanos am ei adroddiad manwl ac i'r Parch. Lewis Morgan am ei gynorthwyo.

Yr oedd llai o ymgeiswyr eleni na llynedd. Tybed ai effaith y *blackout* yw hyn ?

J. M. James.
W. D. Jones.

SAFON I.

Graig, Trebanos : Mary Williams, David Geoffrey Rees Evans, Myrddin Gwynn Morgan, Islwyn Bishop.
Llwynrhydowen : Daniel Davies, David Edgar Jones, Mair Williams, Watkin Davies, James Gwynfor Jones, James I. Eldrich, Evan James Evans, David James Williams.
Graig, Llandysul : Leonard Davies, Margaret Olwen Thomas, Eira Gwen Evans, Derrick Davies, Lano Davies, Ifor Thomas.
Rhydygwin : Vera Jones.
Cribyn : Millicent May Roderick, Charles Hefin Jenkins, Thomas Ioan Davies.
Caeronnen : Eluned Anne Davies, John Elwyn Griffiths.
Alltyblaca : Alun Jones, D. J. Rees.

SAFON II.

Enillwyr y Gwobrwyon : Edryd Williams, Nancy Howells, Walter Roderick a Glyndwr Davies (i gyd o *Gribyn*) ; Marion Lewis, *Trebanos* ; Dewi Evans, *Rhydygwin.*

TYSTYSGRIFAU.

Graig, Trebanos : (Ar lafar). Elizabeth Mary Lewis, Derith Powell, Beryl Richards, Elizabeth Margaret Williams, Margaret Eiru Evans, Phyllis Thelma Phillips. (Ysgrifenedig) Colin Morgan, Nancy Edwina Evans.
Pantydefaid : (Ar lafar) Mair Thomas, Mary Ellen Farmer, Sarah Margretta Evans.
Graig, Llandysul : (Ar lafar) John Davies. (Ysgrifenedig) Dilys E. Davies, Mair Williams.
Llwynrhydowen : (Ysgrifenedig) David Daniel Jones, John Daniel Jones, Glanville Williams, Glenarth Gwernant Jones, Olwen Evans, Essie Jones.
Ciliau : (Ar lafar) Jennie Lewis, Ieuan Davies Turner.
Rhydygwin : (Ysgrifenedig) Mary Davies.
Cribyn : (Ysgrifenedig) Evan Jones, Maggie Jenkins.
Capelygroes : (Ar lafar) Betty Kent ; (Ysgrifenedig) Jenkin Ivon Jones, William James Evans, Aeron Davies, Nancy Davies.
Alltyblaca : (Ar lafar) Nan Jones, Sally Harries, Ray Jones, Rhiannon Jones, Valmai Jones ; (Ysgrifenedig) Arwel Jones, Jack Jones, Freddie B. Rees.
Bwlchyfadfa : (Ysgrifenedig) Hetty May Ansell, Annie Jones, Catherine Anne Evans, Mary Jones, Sarah Jane Jones, W. J. Anthony Jones, Morgan Hywel Evans.

SAFON III.

Enillwyr y Gwobrwyon : E. Myra Davies, *Trebanos* ; Denzil Davies, *Alltyblaca* ; Annie Mary Evans, *Pantydefaid* ; Myra Parry, *Llwynrhydowen* ; Jenkin Lloyd Jones a Mia Davies, *Cribyn.*

TYSTYSGRIFAU.

Graig, Trebanos : Mina Irene Davies.
Cribyn : Alun Howells, Hannah Jones, Lloyd Jones.
Graig, Llandysul : Nance Davies.
Caeronnen : Tilly Jones, D. P. Davies.
Llwynrhydowen : Tyssul Owen Evans.
Alltyblaca : Dewi D. Jones, Lona Jones.

D. Emrys Rees (*Ysgrifennydd*).

Gwyrth Crefydd.

MEWN byd a bywyd gwelir y strygl rhwng y da a'r drwg, rhwng y goleuni a'r tywyllwch, rhwng cariad a chasineb, a gellir edrych ar y strygl mewn dwy ffordd. O un safbwynt gwelir y da fel y gallu cryfaf. O'r safbwynt arall edrychir ar y drwg fel y gallu sy'n trechu. O un safbwynt edrychir ar y cyfanfyd fel maes brwydr, a'r da'n cymryd yr *offensive*, a'r drwg yn gorfod ymladd i ddal ei dir. O'r safbwynt arall edrychir ar yr un frwydr, a gwelir y drwg yn cymryd yr *offensive*. Credwn mai i "ochr yr angylion" y daw'r fuddugoliaeth. Nid amheuir hynny. Ond o un safbwynt gwelir y fuddugoliaeth yn cael ei hennill yn barhaus ; o'r safbwynt arall gwelir gohirio'r fuddugoliaeth o hyd. Ar ein safbwynt y dibyna ein rhagolygon, gobeithiol ynteu anobeithiol. A rhagolygon dyn sy'n creu ansawdd ei fywyd.

Ein rhagolygon sy'n cyfrif am ein gwahaniaethau. Dangos dynion, amlygu'r priddyn sydd ynddynt, y mae digwyddiadau bywyd a'i amgylchiadau tymorol. Dau ddyn yn wynebu'r un profiad—gwneir un ohonynt yn fwy caled ; gwneir y llall yn fwy tyner, a daw i'r golwg rinweddau newydd yn ei ymarwedd. Beth sy'n cyfrif am y gwahaniaeth ? Onid ateb ysbryd pob un ohonynt i'r cyflwr ? Yr ateb hwn sy'n rhoi i'n bywyd ei liw, ac i'n cymeriad ei werth.

TELERAU BYWYD :

Ar delerau y derbyn pob un ohonom rodd bywyd, ac ni allwn wrthod y telerau hyn. Wele rai ohonynt, Rhaid i bob un ohonom farw. Y mae gan ein cyd-ddynion hawliau arnom na ellir eu hosgoi. Wrth lafur y cynhelir bywyd. Cyferfydd â ni ddioddefiadau sy'n tarddu o amherffeithrwydd y byd yr ym yn byw ynddo. Pan wrthodwn gymryd y cyfrifoldeb y mae'r telerau hyn yn galw amdano, gwyddom yn ddanad ydym yn delio'n deg â bywyd y pryd hwnnw. Gallwn adael i alwadau anochel ein bywyd ei grebachu a'n bwrw i laid anobaith ac oferedd. Gallwn adael iddynt ein tywys i ddarganfod profiadau helaethach a dyfnach i gyfoethogi bywyd yr enaid. Prifio ynteu gwywo ? Ateb ein hysbryd sy'n penderfynu, a dibyna hwnnw ar ein rhagolygon.

Ni soniwyd eto am y dyn sy'n edrych ar strygl byd a bywyd o safbwynt y Tragwyddol. Y mae cydnabod fod Duw gyda ni'n y strygl yn gweddnewid y cyfan i gyd. Dyna wna crefydd. Y mae sylweddoli fod Duw gyda ni yn yr ymdrech yn gwneud holl amgylchiadau bywyd yn bosibiliadau daioni, ei gyfleusterau'n alwadau Duw a'i anawsterau'n gyfryngau cynnydd mewn gwybodaeth ac mewn gras.

CYFRINACH BYWYD:

Nid y sistem economaidd, nid y sistem ddiwinyddol, bydded newydd neu hen, ydyw problem bennaf dyn, ond darganfod *sail ymddiriedaeth* a fydd yn rhoi harmoni i'w fywyd mewnol ac i'w gysylltiadau a'r byd o'i amgylch—sylfaen safadwy a fedr ei gynnal goruwch llif-ddyfroedd dyryswch pob dadrithio. Gwybod y gyfrinach a'i galluoga i ddefnyddio ei fyd ydyw angen dyn. Y mae crefydd yn rhoi i ni'r gyfrinach honno. Deffry ein tyfiant moesol, a dengys i ni fywyd fel anturiaeth ogoneddus, a Duw'n cymryd ei ran gyda ni ar lwybrau'r anturiaeth honno.

Tystiolaetha dynion sydd wedi profi eithafion bywyd fod ym mhopeth sy'n tarddu o Dduw, y gwir, a'r da, a'r prydferth, rywbeth tragwyddol fel Duw ei hun, ac na all profedigaethau ei ddinistrio na bydolrwydd ei ddifwyno. Y mae crefydd yn rhoi i ni feddiant o'r *tragwyddol* hwn—yma'n awr ym myd y blynyddoedd sy'n diflannu. Yn wir, dyma'r ffynnon yn y diffaethwch lle y tardd y dyfroedd sy'n gwneud ein byd ni'n wyrdd gan obaith.

Hwyrach mai gwendid pennaf Cristnogion ydyw cymryd eu Cristnogaeth fel philosoffi yn unig. Y mae yn philosoffi, ond y mae hefyd yn rhywbeth mwy. Amcan philosoffi ydyw esbonio'r cyfanfyd, ond gwna crefydd fwy na hynny—dengys i ddyn y ffordd o *fyw* yn y byd, a dyry iddo ysbrydiaeth yn yr ymdrech, a datguddiad o'i fywyd fel symudiad at rywbeth mwy gogoneddus a pherffaith.

Dywedir i Michael Angelo adael cerflun heb ei orffen. Galwyd y cerflun hwnnw " Y Carcharion ". Gadawodd yr artist ddigon o'i waith arno i ddangos ei fwriad. Y mae'r ffurfiau dynol megis yn ceisio eu gwthio eu hunain allan o'r garreg ddiaddurn. Gwelir y strygl am ryddhad. A ymddengys y cread a bywyd ynddo'n debyg i ninnau heddiw. Amlwg ydyw'r strygl a'r boen, ond gwyddom hefyd feddwl yr artist. Daliwn ein ffydd mewn bywyd, yn ei darddiad ysbrydol, yn ei bosibiliadau diderfyn, yn ei ystyr dragwyddol.

Y Cyrddau Blynyddol.

CYNHALIWYD cyfarfodydd blynyddol y Gymdeithas yng Nghapel-yfadfa dyddiau Mawrth a Mercher, Mehefin 18 a 19.

Cafwyd tywydd rhyfeddol o ddymunol a gwelwyd yn bresennol gynrychiolwyr o bron bob cynulleidfa'n y sir. Er fod y cynhaeaf gwair wedi dechrau daeth y ffyddloniaid ynghŷd yn llu mawr, a chredwn i bob un gael tâl da am ddod.

Dechreuwyd y gwasanaeth nos Fawrth gan y Parch. E. Griffith Jones, Capelygroes a Chribyn, a phregethwyd gan y Parchn.

E. R. Dennis a J. Marles Thomas, M.A. Traethai Mr. Dennis ar Dat. 22 : 2, " A dail y pren oedd i iachau y cenhedloedd " ac fe seiliodd Mr. Thomas ei bregeth ar frawddegau o Isaiah 37 : 14, 15 a 20.

Cafwyd cynulliad da y noson gyntaf a chenadwri amserol a grymus.

Prynhawn dydd Mercher cymerwyd y rhannau defosiynol gan Mr. D. Jacob Davies, myfyriwr. Yna traddododd y Llywydd, y Parch. Simon Jones, B.A. ei anerchiad, a chafwyd hwyl Gymraeg gyda'r traddodi. Baich ei anerchiad oedd ein dyled ni fel Undodiaid i'n tadau am eu hymdrech dros ryddid crefyddol a gwladol a'n cyfrifoldeb a'n cyfle i roi gwasanaeth tebyg yn ein dydd. Ar ei ôl ef traddododd y Parch. Lewis Williams bregeth y Gymdeithas. Ei destun oedd : " Na wnewch dŷ fy Nhad yn dŷ marchnad." Cafwyd pregeth wir odidog a'r traddodi yn rhyfeddol o hapus ac effeithiol.

Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. Lewis Williams, a phregethwyd gan y Parch. J. Islan Jones, M.A. oddiar " Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw " (Salm 42 : 2). Pregeth amserol eto—pregeth ag ôl meddwl arni a'r traddodiad fel pe bai wedi pregethu Cymraeg ar hyd ei oes. Diweddwyd y gyfres gyda phregeth hapus gan y Parch. S. E. Bowen ar y geiriau : " Yr hwn a adeiladodd dŷ ar y graig ".

Credaf nad gormodiaith fydd dweud i ni gael cyfres o bregethau uwchraddol—pob un o'r pregethwyr yn rhagori ar eu hunan arferol—y cyfnod enbyd yr ydym yn byw ynddo o bosibl yn dwyn rhyw angerdd i fewn i'r neges nes y teimlid mai pregethau byw, i'w cofio'n hir, oeddynt i gyd, tra yr oedd y gwrandawiad—sut y gallai fod fel arall ?—yn astud a chynorthwyol.

Cafwyd canu rhagorol o'r cychwyn i'r terfyn a gwasanaethwyd wrth yr organ gyda'i medrusrwydd arferol gan Miss Lil Lewis, A.L.C.M.

Gwnaeth chwiorydd y gynulleidfa'n wych gyda'r bwyd a'r croesawu. Boed i fendith Duw orffwys ar y cyfan.

Y Pwyllgor Blynyddol.

CYNHALIWYD hwn yng Nghapelyfadfa bore dydd Mercher, Mehefin 19. Yn absenoldeb y Llywydd, y Parch. Simon Jones, B.A., cymerwyd y gadair gan y Parch. Lewis Williams, yr Is-lywydd, a chyflawnodd y gwaith gyda rhwyddineb mawr.

Darllenwyd a derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol. Pasiwyd gwneud grant o £5 i gynulleidfa Aberystwyth. Derbyniwyd adroddiad y Pwyllgor Gweithiol fel y safai.

SWYDDOGION.—Etholwyd y Parch. Lewis Williams yn Llywydd a Mr. D. J. Davies, B.A., Ph.D., Aberystwyth, yn Is-Lywydd. Ail-etholwyd y trysorydd a'r ysgrifennydd, ac apwyntiwyd Mr. W. D. Jones, B.A., Tŷ'r Ysgol, Llanwnnen a Mr. J. M. James, Tŷ'r Ysgol, Cellan, yn archwilwyr. Dewiswyd y Parch. E. R. Dennis i gymryd lle'r Parch. T. O. Williams, M.A., ar yr Is-bwyllgor sydd i fwrw golwg dros Emynau Rhaglen y Gymanfa, os caniateir hynny gan Bwyllgor y Gymanfa. Ar gynnig y Parch. J. Islan Jones, M.A., yn cael ei eilio gan y Prifathro W. S. Jones, M.A., M.Sc., pasiwyd ein bod yn gofyn i Bwyllgor Gymanfa Ganu Ceredigion foddloni ei ystyried ei hun yn un o Is-bwyllgorau'r Gymdeithas ar yr un tir â Phwyllgor yr Ysgol Sul.

CYRDDAU'R HAF.—Trefnwyd eu cynnal yng Ngalltyplaca.

CAPEL CWMCOTHI.—Wedi cael adroddiad y Prifathro W. S. Jones o'i ymweliad ef ac ereill â'r lle hwn pasiwyd ystyried yr adroddiad ym mhwyllgor yr Hydref.

LLYWYDD Y GYMDEITHAS GYFFREDINOL.—Pasiwyd danfon llongyfarchiadau cynnes iawn i'r Parch. E. Rosalind Lee, M.A. ar ei phenodi i'r swydd, ac estyn gwahoddiad iddi i gyrddau'r Hydref yng Ngalltyplaca.

GWELLIANNAU.—Derbyniwyd y gwelliannau canlynol ar y rheolau ar gynnig y Parch. J. Islan Jones :—

Rheol 5. SWYDDOGION. Ar waelod y paragraff darllener " a dewisir hwynt yng Nghyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas wedi eu henwi yng Nghyfarfodydd y Pasc. Ni ddylid enwi neb heb ganiatâd y sawl a enwir, ac y mae'n ddyletswydd ar yr ysgrifennydd anfon rhestr o'r rhai a enwir yng Nghyfarfodydd y Pasc i'w chyhoeddi mor fuan ag y gellir ".

Rheol 6. [*a*] Ar ôl yr adran gyntaf ychwaneger " Fod unrhyw weinidog wedi ymddeol o'r weinidogaeth sydd yn aelod o un o'r cynulleidfaoedd yn aelod hefyd o'r Gymdeithas a'r Pwyllgor Gweithiol ".

[*b*] IS-BWYLLGORAU. " Fod pob Is-bwyllgor i anfon adroddiad o waith y flwyddyn i ysgrifennydd y Gymdeithas o leiaf fis cyn y Cyfarfod Blynyddol ".

DIOLCH.—Ar ran y cyfarfod cyflwynodd y Cadeirydd ddiolch cynnes i'r gynulleidfa yng Nghapelyfadfa am eu croeso.

E. O. JENKINS.

Lloffion o Hen Ddyddiadur (1819—1858).

[Ysgrifennwyd y "dyddiadur" diddorol hwn gan y diweddar Barch. JOHN THOMAS, gweinidog Pantydefaid, o 1816 hyd 1846.]

Detholwyd a golygwyd gan Miss K. JONES, Gellifaharen.

(*Parhad o dudalen* 78, *Mai 1940.*)

1849

Medi 19. Ffair farw. Prisiau isel. Diwrnod ffein.

Medi 23. Pregethais ym Mhanteg. Mathew xxv. yr adnod olaf. Yr un peht ym Mhenrhiw.

Medi 26. Euthum gyda'r hwyr i weld John Blaencwm sy'n wael iawn.

Hydref 6. Galwodd y Parch. Thos Griffiths, Cellan, a chysgodd yma.

Hydref 7. Pregethais yng Nghwrtnewydd oddiar Mathew vi. 33.

Hydref 10. Ffair Llanfihangel. Tipyn yn araf (*dull*). Galwodd Mr. Titus Evans heibio i mi.

Hydref 12. Bum yn angladd Jack Blaencwm, oed 72.

Hydref 14. Pregethais yn yr ysgoldy oddiar Ioan iii. 16. Felin Newydd, I Timotheus iv. 8.

Hydref 17. Talais 8c. am eog (salmon). Cerddais i iet Gwarallt lle y cyfarfum â Jenkin Morgan, Llwynbedw, a cheffyl. Yr oedd gwylnos yn Llwynbedw.

Hydref 18. Pregethais yn angladd fy hen ddisgybl, John Morgans, a fu farw nos Lun yn 20 oed. Testun—Pregethwr xii. 1. Claddwyd yng Nghapel y Groes.

Hydref 19. Derbyniais oddiwrth yr hongiwr clychau (bell hanger) 6c. am lety dwy noson.

Hydref 21. Ar gefn ceffyl i Gwmwr Du, a phregethais oddiar I Timotheus iv. 8. Cynulleidfa fach iawn. Y Garth oedd fy nhafarn rhad a da.

Tachwedd 3. Talais 1s. am *crape* ar fy het.

Tachwedd 15. Torrodd David Rees fy ngwallt. Ni thalais iddo ddim.

Tachwedd 17. Talais 1s. am ysgyfarnog. Angladd gwidw Caleb Pontweli.

Tachwedd 24. Ddoe clywais oddiwrth fy hen ffrind ffyddlon, Mr. John Davies o Gastell Nedd [mab Ffosyffin, Cellan—K.J.] yn amgau ychydig linellau o farddoniaeth ar y *cholera*.

Rhagfyr 2. Pregethais yng Nghapel y Bryn oddiwr Galatiaid iii. 13.

Rhagfyr 5. Claddwyd Hannah Twcwr.

Rhagfyr 6. Bum yn yr Eglwys. Pregethodd Mr. Griffiths, Llangeler.

Rhagfyr 14. Dim llaeth i frecwast. Gwartheg J. Lloyd wedi mynd ar goll neithiwr.

Rhagfyr 16. Pregethais yng Nghwmwr Du. Benthyciais geffyl. Collais bob gwybodaeth o'r ffordd ar y rhiw. Gadewais y ceffyl i ddewis. Adnabyddais y ffordd yr ochr yma i New Inn yn ymyl nant.

Rhagfyr 23. Pregethais yn yr ysgoldy i gynulleidfa fach iawn. Ni weinyddais Swper yr Arglwydd.

Rhagfyr 25. Euthum i Gellifaharen. Talwyd fi am ysgolia John Jones.

Rhagfyr 30. Methais â mynd i Gwrtnewydd. Aeth Mr. P. Joseph ar gefn ceffyl i'r Bwlch, ond yn ei ymdrech methodd â chyrraedd Ciliau. Lluwchfeydd eira'n ddwfn.

(*I'w barhau.*)

Y DDERWEN

(*Buddugol*—Rhoscilbebyll, 1940).

HON gâf, bron â'r graig yn gyfoed,—a'i bri'n
Harddu bro fy maboed ;
Derwyddol bren i'w henoed
O'r cadarnaf geiniaf goed.

Trebanos. LLANORFAB.

DEIGRYN

Er cof am yr hen ffrind a'r cymydog diddan—EVAN DAVIES, Frondeg.

GYFAILL pur, ei gur wnaeth gario—y dydd,
Caled iawn fydd hebddo ;
Hynaws frawd, trwm loes i'w fro
A'i aelwyd ei ffarwelio.

Noddai gelf cynghanedd gaeth,—a melus
Ei ddawnus farddoniaeth,
Aur delyn, o'r frawdoliaeth
I'r gul rô'n rhy glau yr aeth.

O gariad ai i'w Gysegr Dŷ—annwyl,
Prif ddyn ei addoldy ;
Bydd mwy'n ei isel wely,
Ond i'w fraint yr enaid fry.

Dychmygaf a ddymunai ddweud heddiw,—

Ffarweliwch a'm llwch yma'n llaith—fy mhlant,
A fy mlin gydymaith,
Llaw fy Nuw droes llyw fy nhaith
I wisgo amdo'r ymdaith.

CRIBIN BACH.

Priodasau.

MAI 31, yng Nghapel Siloh, Aberystwyth, gan y Parch. Dan Evans gyda chynorthwy y Parchn. S. E. Bowen a T. O. Williams, unwyd mewn glân briodas 'DONALD' unig fab yr Henadur a Mrs. M. Ll. Gwarnant Williams, a NANCY, merch hynaf Dirprwy Brif Gwnstabl Sir Aberteifi a Mrs. E. J. Evans, Penlan, Trevor Road, Aberystwyth. Bendith y nef arnynt a hir oes i'r ddeuddyn ifanc ym Mhenralltnewydd.

Ffrŵd o heulwen eleni—nwyd enaid
'Donald' at ei 'Nansi' :
A di-loes a fo'ch oes chwi,
Boed wyn o bob daioni.

YNG Nghapel Pantydefaid, Mehefin 5, ym mhresenoldeb y cofrestrydd, Mr. D. Davies, unwyd mewn glân briodas gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. E. J. Davies, B.A., Rheithor Bangor Teifi, JOHN ELWYN DAVIES, a MARY MARGRETTA JONES.

"*Arglwydd, bendithia hwy ill dau.*"

DYDD Sadwrn, Mehefin 22, yng nghapel yr Annibynwyr, Heol y Pobydd, Aberystwyth, gan y gweinidog, y Parch. R. J. Pritchard, M.A., unwyd mewn glân briodas T. EILIR WYNN EVANS, mab y Cynghorwr John Evans, Beili, Llanwnen, a'i ddiweddar briod, ac ENFYS LEWIS, merch yr Athro Timothy Lewis a Mrs. Lewis, Aberystwyth. Hir oes iddynt a phob hawddfyd a'u dilyno.

MEHEFIN 22, yng Nghapel y Fadfa, WILLIAM GRIFFITHS, Pantswllt, Talgarreg, a MEGAN BROWN, Llwyneos, Pontsian. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Boed iddynt iechyd a llwyddiant.

Marwgofion.

Mai 22, bu farw DANIEL HUGHES, Fronfallen, Cribyn, yn 74 mlwydd oed. Claddwyd y dydd Llun dilynol ym mynwent Capel y Cribyn, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. D. Evans ac E. Griffith Jones. Un o hen breswylwyr y pentref oedd Daniel Hughes. Trwy ei alwedigaeth fel teiliwr daeth i adnabyddiaeth agos a nifer luosog yn y gymdogaeth. Yr oedd yn gymeriad hoffus, yn llwyddiannus, ac yn enwog yn yr ardal fel crefftwr. Cadawodd dri mab, tair merch, nifer o wyrion, a brawd, a llawer o berthynasau ereill mewn hiraeth ar ei ol.

Mehefin 4, yn 74 oed, yn ddirybudd, bu farw DAVID THOMAS, B.A., Aberystwyth. Mab ydoedd i'r diweddar David Thomas (" Dewi Hefin ") a Mrs. Thomas, Glaslwyn, Cribyn, ac erys mewn hiraeth o'i golli—briod, merch, dau frawd, ac un chwaer. Derbyniodd ei addysg elfennol yn ysgol enwog ei dad yn Llanwnnen, wedi hynny bu yn Ysgol Ramadeg Llanbedr, oddiyno aeth i Goleg Athrawol Caerfyrddin. Am dymor bu'n athro ysgol yn agos i Wrexham. Yn 1893, penodwyd ef yn Is-Arolygwr Ysgolion dan y diweddar William Williams, M.A. ; wedi'i farw, dan y diweddar Thomas Darlington, M.A. a J. Bancroft, M.A. Am ddeng mlynedd, hyd ei ymddiswyddiad, bu'n Brif Arolygwr yn Nosbarth Ceredigion. Yn ychwanegol at ddyletswyddau'i swydd, llanwodd le amlwg ym mywyd cyhoeddus ei Sir ; bu'n aelod o Lysoedd Llywodraethol y Llyfrgell Genedlaethol a'r Brif Ysgol. Teimlai ddiddordeb mawr mewn hen hanes, a bu'n aelod o'i chychwyn o gymdeithas Henafiaethol Ceredigion ; bu'n ysgrifennydd er 1924, ac yn Llywydd er 1933, hyd ei farw. Ychydig amser cyn ei farw, cyhoeddodd gyfrol drwchus yn delio ag un gangen arbennig o henafiaeth dan y teitl '*animal calls*.' Da a fyddai ped ymgymerai rhywun cymwys ag ysgrifennu adolygiad o hono i'r Ymofynnydd. Adeg y rhyfel diwethaf, anrhydeddwyd ef â'r teitl O.B.E. am ei wasanaeth ynglŷn â chasglu arian at dreuliau'r rhyfel. I nifer luosog o'n darllenwyr yng Ngheredigion yr oedd yn dra adnabyddus ar gyfrif ei ymweliadau â'r ysgolion ; a pherchid ef yn fawr gan athrawon a disgyblion ar gyfrif ei gydymdeimlad â hwy yn eu anawsterau a'i ddiddordeb yn eu gwaith a'i ysbryd hynaws a boneddigaidd. Dygpwyd ef i fyny yng Nghapel Cribyn, ac er i amgylchiadau ei dueddu i uno â'r Eglwys, ni chollodd ei ddiddordeb yn yr achos. Bob tro y deuwn i gyffyrddiad ag ef, cawn ddigon o braw o hyn a sylwi ar ei ymholiadau manwl o barthed iddo. O'r teulu, nid oes bellach ond un yn aros yng Nghribyn—ei chwaer, Mrs. Thomas o'r Glaslwyn. Y mae hi yn para'n ffyddlon. Cydymdeimlwn â hi yn y golled o frawd annwyl.

Mehefin 6, yn 76 oed, bu farw EVAN DAVIES, Frondeg, ger Cribyn, ar ôl cystudd cymharol fyr, gan adael priod, pedwar o blant, nifer luosog o wyrion, ac un chwaer, mewn galar dwys. Er mai byr a fu ei gystudd olaf, eto, nis llwyr adferwyd o effeithiau anhwylder tua blwyddyn a hanner yn ôl. Yr oedd yn adnabyddus i gylch neilltuol o eang, a pherchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai ar gyfrif nodweddau dymunol ei gymeriad—ei ddidwylledd, ei hynawsedd ei garedigrwydd, ei lwyr ryddid o bob meddwl a theimlad drwg ac annheilwng. Bu'n aelod yng Nghribyn er yn gymharol ieuanc, ac yn ddiacon am yn agos i ugain mlynedd. Fel aelod a swyddog bu'n ddifwlch o ffyddlon ; harddodd ei broffes â'i gymeriad glân, a gwelir ei le'n wag am hir amser. Am rai blynyddoedd bu'n aelod o Gyngor Dosbarth Llanbedr, a theimlai ddiddordeb mawr yn ei weithrediadau. Bu yng ngwasanaeth y Cyngor Sir am dymor hir, a gellir dywedyd yn ddibetrus na bu gan y Cyngor ei ffyddlonach. Yr oedd hefyd o duedd lenorol gref ; cyfansoddodd nifer luosog o englynion a darnau ereill o gryn deilyngdod ; ymddangosodd rhai o honynt yn yr Ymofynnydd. Teimlai ddiddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth ; meddai syniadau cryf, goleuedig, a bu'n ffyddlon iddynt. Siom fawr iddo a fu gweld torri o'r rhyfel presennol allan. Gwyddai trwy brofiad beth yw canlyniadau rhyfel, oblegid collodd ef a'i briod fab annwyl yn y rhyfel diweddaf, ac y mae amryw o'i wyrion yn y rhyfel presennol. Fel un a fu'n weinidog a chymydog agos iddo, da gennyf gael o honof gyfle i dalu hyn o deyrnged o barch iddo. " Cu iawn fuost gennyf." Cydymdeimlir yn fawr a'r

priod a'r plant yn eu hiraeth. Collodd y priod gymar a fu'n gymar iddi yn ystyr orau'r gair ; a'r plant dad tyner a gofalus. Claddwyd ei weddillion y Llun dilynol yng Nghribyn, y cynhebrwng yn gyfyngedig i gymdogion agos. Darllenwyd a gweddiwyd yn y tŷ gan y Parchn. Islan Jones, M.A., a D. Evans. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. E. G. Jones, y Gweinidog. Gwasanaethwyd ar lan y bedd gan y Parchn. Islan Jones ac S. E. Bowen.

Dydd Sadwrn, Mehefin 8, bu farw Mrs. MARGARET ANN EVANS, priod Mr. Evan Evans, Cattle Dealer, 12, College Street, Aberdâr, yn 65 mlwydd oed. Canolig fu ei hiechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac ymhellach yn ystod yr amser hynny, bu yn gweini ar Mr. Evans yn ei afiechyd a'i lesgedd yntau a thrwy hynny efallai iddi ordrethu ei nerth ei hun. Daeth y terfyn yn bur fuan ar ôl wythnos o boen a gwendid. Cyflwynwn i'w phriod, i'r teulu a'r perthnasau ein cydymdeimlad llwyraf yn eu gofid a'u hiraeth. Claddwyd dydd Mercher, Mehefin 12 yn y Gladdfa Gyhoeddus, a gwasanaethwyd gan y Parch. E. R. Dennis.

Mehefin 17, ar ôl cystudd maith a blin JOHN EVANS, Riverside, Pontsian yn 74 mlwydd oed. Dechreuodd waelu'r Hydref diwethaf, ac er i ni gredu rhagor nag unwaith ei fod ar wellhad gwaethygu a wnai, a bu'n gorwedd am fisoedd. Gadawodd chwaer, brawd, nifer o neiaint a pherthynasau ereill i wylo ei golli. Â ein cydymdeimlad yn bennaf i'r chwaer a oedd wedi cydfyw ag ef ar hyd eu hoes. A hithau'n mhell o fod yn gryf cafodd aeaf blin a chaled, a daliodd ati i weini arno'n ffyddlon a gofalus hyd y terfyn. Medrai John Evans fod yn ysmala ei ymadrodd weithiau, a gallai fod yn ddifyr mewn cwmni ond yr oedd yn ei feddwl a'i ysbryd mor ddiniwed a'r oen. Ers blynyddoedd efe ofalai am lanhau hen fynwent y Llwyn, a chymerai ddiddordeb mawr yn y gwaith. Claddwyd y dydd Iau dilynol yng nghladdfa'r teulu ym mynwent Carmel. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. A. Williams, gweinidog Carmel. Pregethwyd yn y Capel gan y Parch. E. O. Jenkins, a chymerwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. E. G. Jones. " Buost ffyddlawn ar ychydig."

" Oriau'i boen ni wyddai'r byd,
Ei hâf ni wyddai hefyd."

" HOWELL wedi mynd yn 39 mlwydd oed a dyna gymwynas ! "

Dyna ond odid deimlad pob ffrind o glywed ei fod wedi mynd o'i boen a'i nychdod hir, ac ar waethaf yr hiraeth, er gwybod am loes ei weddw ifanc a bod Jac ac Eric yn amddifaid ni fedrir peidio a diolch i Dduw am ei ollwng adref. Nid rhywun yn ei ddu mo angau bob tro. Yma yr oedd yn gymwynaswr. Ni wyddai ond ei ffrindiau agosaf am ei boenau dirdynol, a chynt neu hwyrach fe ddaw dyn yn fodlon i farw er dianc o'i boen. Dyna deimlad Howell ! Nid oedd eisiau dweyd ond ei enw. Yr oedd yn ddigon ! Nid oedd berigl ei gamsynied am neb arall. Ar y *bus*, yn y Côr, ar yr aelwyd ac yn yr ardal yr un un ydoedd, gyda'i wên garedig a'i wyneb agored, gyda'i lais tenor peraidd a'i galon dyner ddiwenwyn. Rywsut yr oedd pawb yn ffrind iddo, ac yntau'n ffrind i bawb. Gwelid hyn ar ddydd ei angladd a'r dorf niferus yn dweyd yn groyw farn ardal amdano. Nid yw'r manion yn bwysig. Mab y Felin yng nghapel Sant Silin ydoedd ac yn hannu o'r ddwy ochr o gyff Undodaidd, ond gwnaeth ei gartref ers blynyddoedd yn Nheifi View, Alltyblaca, ac yr oedd yn ffyddlon gyda'r achos yn Alltyblaca. *Conductor* ar Fus y ' Crossville ' ydoedd ers blynyddoedd weithian, ond aeth adref ar ei siwrnai olaf a *Chonductor arall ar ei fus*, ac nid oedd berigl i hwnnw ei arwain ar gyfeiliorn. Claddwyd dydd Mercher, Mehefin 26 ym mynwent Capel y Bryn, Cwrtnewydd, a gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Gruffydd Jones a Lewis Williams. Yn y Capel gan y gweinidog, y Parch. S. E. Bowen ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, a chanodd aelodau Côr Llanybyther emyn ffarwel ar lan ei fedd am aelod o'r Côr. Gadawodd weddw ieuanc, dau fab, brawd a thair chwaer, heblaw mamgu oedrannus, a nifer lluosog o ffrindiau i alaru o'i golli. " Rhy gynnar, fy mrawd, dy delyn a dorrwyd " ond gobeithio y bydd i'w deulu bach gadw'i ffydd yn yr awr ddu o gofio na " ddaw neb yn rhy gynnar i fyd Iesu Grist."

Nodion yr Eglwysi.

PWYLLGOR Y GYMANFA GANU.—Cynhelir Pwyllgor Undeb Cerddorol Undodiaid Ceredigion yng Nghapel-y-Bryn, prynhawn Sul, Gorffennaf 14, am 4 o'r gloch. Disgwylir dau gynrychiolydd o bob eglwys.—DAN DAVIES, *Ysgrifennydd.*

LLUNDAIN.—Pregethir yn y Gwasanaeth Cymraeg ar Awst 4 gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul.

CRIBYN.—Ar Fai 16 cafwyd gwledd o dê eleni eto. Rhoddwyd y wledd gan Mr. a Mrs. Evans, Maesyronnen, Mr. a Mrs. Jenkins, Glasfryn, Mr. a Mrs. Davies, Tanrallt, Mr. a Mrs. Williams, Aeronfa, Miss Rachel Mary Harris, Aeron House, a Mrs. Evans, Cwmynach. Mewn cyfarfod yn yr hwyr diolchwyd am y wledd gan y gweinidog, a chafwyd cyngerdd hwylus iawn o adrodd, actio, a chanu gan y plant a chôr y merched a baratowyd gan Mrs. E. Griffith Jones. Arweiniwyd y cyfarfod gan y Parch. J. Islan Jones, M.A.

CYMANFAOEDD YSGOLION.—Mai 12 ym Mhantydefaid cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion cylch Llandysul. Ofnid na fyddai'r Gymanfa eleni mor llewyrchus ag arfer oherwydd yr argyfwng yr ym ynddo ac hefyd am fod nifer o ffyddloniaid wedi eu galw adref yn ystod y flwyddyn. Yr hin yn ffafriol a'r pedair ysgol yn llewyrchus teimlid fod y gymanfa'n fendith a llwyddiant ymhob ystyr. Holwyd yn fedrus iawn gan y pregethwr ifanc, Mr. D. Jacob Davies. Yn oedfa'r hwyr pregethodd yn rymus ac amserol i gynulleidfa fawr. Canwyd tonau o'r rhaglen dan arweiniad Mr. Tom Davies, Dewi Villa, a Miss Lil Lewis, A.L.C.M. wrth yr organ. Yn absenoldeb y gweinidog, y Parch. E. Gwilym Evans, arweiniwyd yr oedfaon gan y Parch. E. O. Jenkins. Cyfeiriodd yn oedfa'r hwyr at afiechyd y gweinidog, gan ddatgan cydymdeimlad y gymanfa ag ef a dymuno iddo adferiad buan. Gyda dwyster mawr canwyd y dôn " Maesgwyn " i goffhau'r ffyddloniaid a gollwyd er y gymanfa ddiwethaf. Gellid enwi tri neu bedwar a fu'n cymryd rhan bwysig—cewri mewn meddwl a defnyddioldeb. Pwy a leinw eu lle ym mywyd yr ysgol Sul er hyrwyddo llwyddiant teyrnas Iesu Grist. Hyderwn y bydd i'r gymanfa hon fod yn ysbrydiaeth i rywrai wasanaethu eu cyd-ddynion yn y cyfeiriad hwn. Cynigiwyd pleidlias o ddiolch i gynulleidfa Pantydefaid am ei chroeso, ac i bawb a gymerodd ran, gan Mr. Evan Davies, Maespwll, ac eiliwyd gan Mr. Griffith Davies, C.D., Bryncletwr.———Cynhaliodd ysgolion Sul Rhydygwin, Ciliau Aeron, Cribyn, Capel y Bryn, a Chapel y Cwm eu cymanfa flynyddol yn Rhydygwin ar Fai 24. Holwyd yr ysgolion gan y Parchn. E. Griffith Jones, a T. O. Williams, M.A. Holwyd y plant ar y Maes Llafur gan y Parch. S. Evans Bowen. Chwaraewyd yr organ gan Miss Ceridwen Evans, Gelligwefrwch a Miss Jones, Lloyd Jack. Calonogol iawn oedd gweld cynifer o bobl ieuainc yn perthyn i'r ysgolion, ac fod llawer ohonynt wedi myfyrio'r rhannau o'r Ysgrythur a adroddasent. Yr oedd gwedd lewyrchus ar yr ysgolion y dydd hwn. Rhoes pobl Rhydygwin groeso cynnes, a chredwn i bawb ymadael gan deimlo iddynt fod yn awyrgylch cariad brawdol. Caed *Rehearsal* yn yr hwyr, Mr. David Evans, Capel y Bryn, yn arwain.

TORPEDO

[*Buddugol*—Craigcefnparc 1940).

ANNUW ddyfais, chwyrn ddeifiwr,—â i lawr
Gyda'i lwyth i'r dyfndwr ;
Wedyn daw o dan y dŵr
Yn hy angau i longwr.

Trebanos. LLANORFAB.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.